Blaenau Ffestiniog
o'r graig
from the rock

Be' ydi Blaenau Ymlaen?

Ffurfiwyd Blaenau Ymlaen fel grŵp gwirfoddol i ddod a grwpiau a chynlluniau Adfywio Blaenau Ffestiniog at ei gilydd. Mae'n cwrdd pob dau fis ac mae croeso i bawb.

Pam Canol y Dref?

Bu Blaenau Ymlaen, Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus mewn cais am arian o Ewrop wedi ei glustnodi ar gyfer adfywio canol trefi, ni ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Mae poblogaeth yr ardal yn gostwng 2.5% yn flynyddol, mae nifer o'r unedau busnes yn y dref yn wag. Mae'r cynllun yn plethu gyda chynlluniau eraill megis cynllun Antur Stiniog i ddatblygu'r sector Awyr Agored. Mae angen i ni fanteisio ar yr ymwelwyr sydd yn cyrraedd y dref ond yn troi'n ôl i gyfeiriad Porthmadog.

Darlun gan Macgregor Smith.

Cynllun Canol y Dref – Proses hir!

Cynhaliwyd 7 digwyddiad ymgynghori cyhoeddus yn ogystal â gwaith gyda grwpiau penodol fel yr ysgol a'r grŵp mynediad. Rydym yn ffyddiog fod y cynllun yn adlewyrchu dyheadau'r gymuned.

Yr Arian

£4.4m o gronfa ERDF, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd rhaid i ni nawr sicrhau fod y buddsoddiad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r dref a'i thrigolion.

Ymgynghori a gwaith ar y gweill 2011

Beth sy'n rhan o'r gwaith?

- Cymorth o hyd at 75% i wella cyflwr allanol adeiladau masnachol y dref, gan gynnwys arwyddion, ffenestri a drysau newydd, paentio a phlastro. Rydym yn annog "canopïau" ac arwyddion lliwgar.
- Datblygu darn o waith celf gan artist ar y ffordd i mewn i'r dref er mwyn denu sylw a thynnu pobl yma i dreulio amser a gwario arian.
- Newidiadau sylweddol i "ganol y dref" gan gynnwys maes parcio'r Orsaf a maes parcio Diffwys. Y bwriad yw denu pobl oddi ar Rheilffordd i dreulio amser ac i wario arian yn y dref.
- Mae'n fwriad i wella marchnata'r dref gan osod arwyddion gwell o amgylch y dref. Bydd cyfleoedd i ddehongli hanes hefyd yn cael eu datblygu.
- Rydym yn annog cwmnïau lleol i dendro am y gwaith adeiladu ac i ymgymryd gyda'r gwaith o wella'r siopau.

Y nòd:

"Creu lle i fyw, i weithio ac i ymweld â hi sy'n gyffrous, bywiog a deniadol, sy'n enwog am ddiwylliant a chelfyddyd, yr ymdeimlad cryf o gymuned a'r amgylchedd syfrdanol. Bydd y dref yn adeiladu ar y nodweddion unigryw hyn mewn dull cynaliadwy er mwyn cyflawni adfywiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol."

Pryd?

Byddwn yn tendro am gwmni i ymgymryd gyda'r gwaith dros Haf 2011 gyda'r gobaith o gychwyn ar y gwaith yn Hydref 2011. Bydd rhan helaeth o'r gwaith yn cael ei gwblhau erbyn Haf 2012.

Gwybodaeth:

Am fwy o fanylion ewch ar wefan y cynllun, **www.gwynedd.gov.uk/blaenauymlaen**

anfon ebost at **blaenauymlaen@gwynedd.gov.uk** neu gysylltwch yn lleol gyda **Eifion Williams 07867945741** neu gyda'r **Swyddog Adfywio 01766 512499**.

Dylunio gan MwnciBach

Blaenau ymlaen

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund